**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Jane Hutt AS,
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol,
Llywodraeth Cymru

13 Gorffennaf 2022

Annwyl Jane,

Diolch i chi am eich ymateb ar 14 Mehefin i'm gohebiaeth gynharach. Fel y soniais, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth pellach yn ein cyfarfod ar 22 Mehefin, lle clywsom gan lywodraeth leol a'r sector gwirfoddol am eu profiadau o ddarparu cartrefi i bobl o Wcráin.

Roedd y dystiolaeth a glywsom yn y sesiynau hynny ar y cyfan yn cefnogi dull gweithredu Llywodraeth Cymru a'r cynllun uwch-noddwyr. Roedd y tystion yn croesawu'r ddarpariaeth canolfannau croeso i leoli pobl am dri mis i ddechrau ar ôl cyrraedd, ac yn cefnogi'r penderfyniad i oedi'r cynllun uwch-noddwyr i ganolbwyntio ar gyflawni ymrwymiadau cyfredol. Clywsom y bydd yr oedi yn galluogi awdurdodau lleol i wneud yn siŵr eu bod yn cynllunio'n briodol at y dyfodol.

Cadarnhaodd eich datganiad ysgrifenedig ar 6 Gorffennaf y bydd yr oedi yn parhau. Clywsom am bwysigrwydd cyfathrebu â sefydliadau'r trydydd sector cyn ailddechrau'r cynllun, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o rybudd ac yn gallu cynllunio'n unol â hynny. Felly, rydym yn ailadrodd eu cais bod y trydydd sector a'r holl randdeiliaid perthnasol eraill yn cael digon o rybudd ymlaen llaw.

Mae eich datganiad hefyd yn cadarnhau bod dros 4,000 o fisâu wedi'u cyhoeddi drwy'r llwybr uwch-noddwyr. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro faint sydd wedi cyrraedd Cymru mewn gwirionedd a'r amserlen ddisgwyliedig i weddill y bobl gyrraedd. Nodwn fod rhagor o ganolfannau croeso wedi agor, ond rydym yn parhau i bryderu ynghylch argaeledd llety tymor hwy addas unwaith y daw'r cyfnod o dri mis mewn canolfannau croeso i ben. Gwyddom hefyd fod tua 10,000 o bobl mewn llety dros dro ledled Cymru, yn ogystal â ffoaduriaid o Afghanistan, yn aros am lety parhaol o hyd. Er bod eich datganiad yn pwysleisio bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol, y GIG a'r trydydd sector i gefnogi pobl sy'n cyrraedd drwy'r llwybr uwch-noddwyr i lety priodol ar gyfer symud ymlaen, rydym yn pryderu y bydd yn anodd iawn i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddod o hyd i lety digonol.

Clywsom eto am bwysigrwydd cynnal gwiriadau diogelu cyn lleoli pobl mewn llety amgen, ac felly rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd yn eich datganiad na fydd neb yn symud i lety sy'n cael ei drefnu gan Lywodraeth Cymru hyd nes y bydd gwiriadau o'r fath wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cynnal gwiriadau diogelu cyn lleoli pobl sy'n cyrraedd drwy unrhyw un o'r llwybrau posibl, gan gynnwys Cynllun Teuluoedd Wcráin.

Clywsom mai diogelu fydd y prif bryder ynghylch cynlluniau i ganiatáu i rai dan 18 oed ddod i'r DU ar eu pen eu hunain os oes ganddynt ganiatâd ysgrifenedig gan rieni neu warcheidwaid. Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad ar y cynlluniau hyn, gan gynnwys datblygu canllawiau ar sut y byddai'r cynllun yn gweithredu'n ymarferol.

Clywsom bryderon penodol gan awdurdodau lleol am y diffyg gwybodaeth a ddarperir iddynt am leoli pobl drwy Gynllun Teuluoedd Wcráin. Dywedwyd wrthym nad yw awdurdodau lleol yn gallu cynnal yr un gwiriadau ar gyfer y rhai sy'n cyrraedd o dan y cynllun hwnnw gan nad ydynt yn cael y wybodaeth gan Lywodraeth y DU. Mae gallu cael mynediad at y data hyn yn hanfodol er mwyn i awdurdodau lleol gynnal y gwiriadau angenrheidiol a hefyd er mwyn iddynt allu cynllunio'n effeithiol ar gyfer y galw am wasanaethau yn eu hardaloedd. Rydym yn deall bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU am hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru godi hyn hefyd gyda Llywodraeth y DU i bwysleisio pa mor bwysig yw hi bod awdurdodau lleol yn cael y data sydd eu hangen arnynt.

Mae eich datganiad hefyd yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu taliad misol o £350 i westeiwyr sy'n derbyn teulu drwy Gynllun Teuluoedd Wcráin. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro sut y caiff y cyllid hwnnw ei weinyddu. O ystyried nad yw awdurdodau lleol yn cael data am leoliad y bobl sy'n cyrraedd drwy'r cynllun hwn, nid yw'n glir i ni a fydd yn dibynnu ar westeiwyr yn dod ymlaen i ddatgan eu hunain i awdurdodau lleol.

Clywsom eto fod darparu cymorth i westeion yn hanfodol i sicrhau lleoliadau effeithiol; mae eich datganiad yn nodi y byddwch yn gofyn i aelwydydd a landlordiaid ddod ymlaen i gynnig llety i bobl o Wcráin. Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i ariannu'r sesiynau gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth ar gyfer gwesteiwyr drwy Housing Justice Cymru ac ymestyn Gwasanaeth Noddfa Cymru.

Clywsom hefyd am bwysigrwydd sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chyngor am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Dywedwyd wrthym y byddai rhai pobl yn y canolfannau croeso yn hoffi cael llety yn Lloegr, yn agos at deuluoedd a rhwydweithiau cymorth eraill a allai fod wedi'u lleoli yno. Er bod cytundeb ar waith yng Nghymru y gall pobl gael eu lletya y tu allan i ardal awdurdod lleol y ganolfan groeso, byddem yn ddiolchgar am ragor o wybodaeth am y trefniadau trawsffiniol i letya pobl yng Nghymru sy'n dymuno adleoli i Loegr ac i'r gwrthwyneb.

Mae hwn yn fater pwysig iawn i'r Pwyllgor a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Hoffem felly eich gwahodd i ymddangos gerbron ein Pwyllgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn inni allu asesu

pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran sicrhau cartrefi tymor hwy i bobl o Wcráin. Byddwn mewn cysylltiad yn fuan gyda dyddiad arfaethedig ar gyfer y sesiwn.

Yn gywir,

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.